Cofnodion drafft Cyngor Cymuned Llanbedr a gyfarfu nos Iau 4ydd o Orffennaf yn ystafell Moelfre Neuadd Gymdeithasol am 7.30

Noson yr etholiad genedlaethol hefyd.

Y bwriad oedd cael cyfieithydd ar zoom, ond ni allodd ymuno gyda ni wedi'r cyfan oherwydd problemau technegol.

Yn Bresennol

Y Cadeirydd Jane Taylor Williams, Eirwyn Thomas, Robin Ward, Kevin Titley, Helen Johns, Annwen Hughes, John Evans, Nia Jones. Gwynfor Owen (Zoom)

Ymddiheuriadau – Luise Vassey.

Datgan Buddiant – dim I'w ddatgan

Derbyn Cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir – nodi mae gyferbyn Llys Artro/Bron Meini mae'r japanesse knotweed.

Adroddiad Cyllid

Y daflen ariannol yn unol a statement banc am 29 .6.24

Sef £25523.96

Taliadau

| | | |
|---|---|---|
| Delyth Williams – gwefan | | £40.00 |
| Rhent am logi Neuadd | | £20.00 |
| W Hooban | Inv 51 | £270.00 |
| Yn cynnwys £140 | Cae Pel droed | |
| Cae plant | 40.00 | |
| Gardd Goffa | 40.00 | |
| Cae Deiliog | 30.00 | |
| Gof Golofn | 20.00 | |
| Mynwwent x 2 | | 600.00 |
| Gwaith Arall ffensio = never cut | | 620.00 |

| | |
|---|---|
| Parish Online | £75 + £15 Taw. |

Taliadau mis Gorffennaf I'w awdurdodi

| | |
|---|---|
| LLwybr rhif 62 | £400 |
| Charges banc | 5.00 |
| Ysgol Feithrin rhodd | £500 |
| Derbyniwyd | |
| Ad daliad TAW | £1014.19 |
| Pritchard + Griffiths | £494 |
| Rhent Neuadd | £10.00 |
| Will Hooban Iron Designs | 250.00 |

Hefyd cymeradwyuo bod y Clerc, Cadeirydd a Eirwyn Thomas yn cael awdurdodi unrhyw daliadau yn ystod mis Awst – mis gwyliau.

**Adroddiad gan Gwynfor Owen**

Ar cychwyn y cyfarfod cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Gwynfor Owen. Cyfeiriodd at y cyfarfod yn Wrecsam ar y 10 fed o Fehefin gyda Ken Skates ac eraill. Yn well nag yr oedd wedi tybio. Disgwyliadau mwy pendant parthed ffordd Llanbedr.

Nododd y Clerc nad oedd unrhyw ddatganiad wedi dod gan YCG parthed y gweithdy a symud ymlaen. Nid oeddent yn gallu anfon cylchlythur oherwydd effaith yr etholiad posib.

Y gwasanaeth trenau . Gofyn am fwy o gyfarfodydd , mwy o drenau ac yn amlach. Fel Cerphilly I Gaerdydd.

Y trydydd pwnc yw toriadau yn y gyllideb gan Gyngor Gwynedd at y flwyddyn nesaf. Posibilrwydd o dooriadau I Ysgolion, a chau rhai ysgolion llai. Hyn yn bryder eto,.

**Tud 3.**

**Adroddiad gan  Cynghorydd Annwen Hughes**

Yn falch o weld bod y brigyn oedd yn cuddio arwydd ger gof golofn wedi ei dorri o'r diwedd.

Tim tacluso wedi bod yn Llanbedr.

Cyngor Gwynedd wedi difa y chwyn ar ochr y palmant.

Tyllau yn y ffordd – yn cael sylw gan Gyngor Gwynedd

Torri ochr ffyrdd – cwyno parthed diffyg i wneud hyn.

Modur dal yn parcio ger Capel Bach – rhwystr ffordd – er bod Elliw Williams PCO wedi cael gair gyda'r perchennog.

Yr Ysgol – wedi gwneud cais drwy un o'r rhieni am arian i brynu bwrdd gwyn ( Nododd JTW hyn, a bydd AH yn codi hyn yn y cyfarfod Llywodraethwyr).

**Ymateb i e bost** parthed gwaith angen ei wneud yn Llanbedr – Cyngor Gwynedd Adran Priffyrdd

1. Japanesse knotweed – ar y rhaglen waith blynyddol.
2. Tylla ffordd Garth Goch – eto ar daflen waith .
3. Arwydd ffordd Cypla – man pasio – dal yn disgwyl am hwn
4. Eiddew ar y Bont – bydd adran strwythyrau yn cynnal asesiad o hyn.
5. Tyllau yn y ffordd ger rhif 1 a 2 Bryn Deiliog – dim yn gweld diffygion mawr yma, hyd yma.

Materion Eraill

**Y Fynwent** – yn Dilyn cyfarfod safle 10.6.24 penderfynnwyd bod peth gwaith angen ei wneud yma yn y fynwent.

Eiddew ar y cloddiau, ar cwt – angen ei dorri.  Ar feddi hefyd.

Nifer o goed angen eu torri.

Y terfyn rhwng Ardudwy a'r fynwent gwrych – angen ei dorri a'i dacluso. Torri yn ol i'r ffens, ac uchder angen ei dorri hefyd.  Cael pris am hyn gan 2 gwmni.

Y gwaith i'w wneud ym mis medi/Hydref. (Amodau bioamrywiaeth)

Tud 4.

Ceisio cael diwrnod gwaith gyda gwirfoddolwyr o'r pentref  i helpu. Cynnig paned a chacen I bawb.  Y Clerc I hyrwyddo hyn.

Angen creu asesiad risg (KT)

**Cae Chwarae**

Angen chwynu – chwyn laddwr ar y llwybr eto.  Eirwyn I wneud ymholiadau.

G.L.Jones heb ymateb I'r cais iddynt barhau ar gwaith paentio offer cae chwarae a thrwshio o dan yr offer (matiau diogelwch).  Clerc yrru atynt i'w hatgoffa.

**LLwybrau Cyhoeddus**

Bod llwybr 62 wedi ei dorri yn dda. Pris o £400

Mynd ati I ofyn iddynt dorri llwybr ger carafan Plas Gwynfryn – i ben Graig Fawr.  A peth ar lwybr Llety Walter.  Diwrnod o waith, yn erys yn y gyllideb.

Llwybr Hygyrch – Ardal Ni. Y Clerc wedi son am hyn wedi cyfarfod Ardal Ni. Pethau yn ymwneud gyda Llanbedr yn deillio o'r ffordd Newydd, a'r toiledau yn unig.  Pasiwyd anfon atynt I geisio cael llwybr rhif 5 yn y cynllun dan llwybr hygyrch.  Y Clerc i wneud hyn.

**Unrhyw Fater Arall**

1. Ffurflen adroddiad mewnol – fersiwn gymraeg wedi ei pharatoi. Angen cyfieithiad yn awr. Ac ychwanegu y fynwent, cae chwarae, ac eiddo I'r rhaglen.Nododd y Clerc bod un o'r meinciau ger Capel Moreia wedi torri.  A ydym am ei thrwshio?  Ni fydd lle I'r 2 fainc ger mynedfa Bryn Deiliog wedi I'r cysgodfan bws gael ei osod mewn lle.
2. RW a LV wedi nodi bod rhaid diweddaru petha ar y wefan.
3. RW – beth yw'r gwelliannau sydd yn cael ei wneud yn 3 Bryn Deiliog. Nododd KT a JTW mae tacluso a thrwshio yn y cefn maent yn ei wneud.
4. RW yn holi beth yw hanes HAL yn awr.  Nodwyd na fyddem fel Cyngor yn rhoi arian mwyach.  Dim gwybodaeth yn dod I'r Cyngor bellach , ond bod manylion ar dudallen face book.
5. RW hefyd wedi ceisio cael speed cameras sefydlog yn y Pentref.  Oes modd anfon gair swyddogol o'r Cyngor parthed hyn.  Pasiwyd bod y Clerc yn gwneud hyn.

6. AH yn nodi bod ceir yn parcio ar y linell melyn dwbwl ger Ty Mawr. Wedi argymell bod yr heddlu yn cadw llygaid ar y sefyllfa.
7. AH yn nodi bydd y banc HSBC wedi cau yn Mhorthmadog tan 3 ydd o Awst er mwyn cael cyfle I ail strwythuro .
8. Twll yn y ffordd ger Wenallt - Cyngor Gwynedd - cadw golwg ar hwn.
9. System carffosiaeth yr Ysgol – angen gwneud twll yn y maes parcio y Neuadd er mwyn gwneud asesiad. (ETH)
10. JE – nodi bod angen torri tyfiant ger Cae Nest. Bod John Ceri am wneud hyn.
11. KT – nodi bod cerdded ar y bont y Pentref yn berygl iawn. (ar y palmant)
12. JTW – nodi bod llecynnau bler yn y Pentref.
13. JTW – bod maes parcio yn cael ei wneud ger Bryn Hyfryd ( prosiect gan Parc Cenedlaethol) ac eto mae'r ffordd yn gul iawn, a bydd mwy o road rage!!
14. Eth – nodi bod wedi derbyn lluniau gan Gyngor Gwynedd parthed cyflwr y wal derfyn rhwng maes parcio y Neuadd a'r Ysgol.

Cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned yw hyn. Angen cael 2 bris am y gwaith. ETh am farcio y mannau sydd angen eu trwshio er mwyn anfon at 2 weithiwr.